# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 17eg o Orffennaf 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng G Evans, W Evans, J Phillips, R Gallie, H James, D Lewis, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng P Walton

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 15fed o Fai a derbyniwyd hwy yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI:**

Clerc i ddanfon nodyn atgoffa ynglyn a rhent tir orddyledus.

Gwnaeth cynghorwyr drafod naill ai i newid neu atgyweirio meinciau cyhoeddus yn Heol Shôn a Chwmfelin Mynach.

**RHEOLAU SEFYDLOG DIWEDDAREDIG (2018):**

Gwnaeth cynghorwyr drafod a chymeradwyo rheolau sefydlog diweddaredig.

**CYTUNDEB RHENT TIR NEWYDD:**

Penderfynodd y cynghorwyr i beidio symud ymlaen efo'r cytundeb newydd hyd nes fod pob cynghorwr wedi cael cyfle i edrych dros y cytundeb.

**GOHEBIAETH:**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth un o drigolion Blaenwaun a oedd a diddordeb mewn dod yn aelod o'r cyngor cymuned. Clerc i ymateb.

Daeth llythyr oddi wrth Simon Hart AS ynglyn a newidiadau awgrymedig i wasanaethau GIC o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth CSC ynglyn a 'Memorandwm o Ddealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant'. Yn dilyn trafodaeth fe benderfynwyd i fabwysiadu'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.

Daeth gwahoddiad oddi wrth CSC i fynychu gweithdy yn Llandeilo ar y Cynllun Datblygu Lleol.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| H James – rhent tir cyngor | £309.32 |
| Watkins Partnership – rhent tir cyngor | £78.09 |
| HMRC – ad-daliad TAW | £489.39 |
| GVO No. 39 – lles cymunedol twrbin gwynt | £2946.84 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru – cae chwarae Blaenwaun (Ion -Meh 18) | £14.04 |
| CurrysPCworld – hard drive allanol & cas | £59.99 |
| Morgan&Morgan – cwpwrdd ffeilio | £107.99 |
| Treuliau'r clerc 2017/18 | £181.87 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Trysorydd | £3173.54 |
| Cyfrif Busnes | £12612.97 |

**CYNLLUNIO:** Dim

**HAWLIAU FFORDD LLANWINIO:**

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth CSC ynglyn a'r fersiwn ddrafft o Gynllun Gwella Hawliau Ffordd Sir Gaerfyrddin 2018 – 2028 sydd i'w gyhoeddi yn fuan.

**U.F.A.**

Gwnaeth gynghorwyr y sylw fod gwaith torri clawdd CSC ddim i fyny a safon y llynedd.

Mae gwyneb yr heol ar rhiw Bwmper yn dirywio yn gyflym. Gwnaeth Cyng J Lewis (CSC) gynnig cysylltu a'r Adran Briffyrdd i weld a all gael ei arwynebu.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd fod y cyfarfod ar gau.

**Fe fydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Fawrth 18fed o Fedi am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**